# Fforwm Rhanbarthol TrC – De-ddwyrain Cymru

# TfW Regional Forum - South East Wales

# 17 Mai 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol y De-ddwyrain

Cynhaliwyd cyfarfod y fforwm ar 17 Mai 2021, 10:00 – 12:00

## Yn bresennol

### Aelodau'r Fforwm

| | |
|---|---|
| Adrian Field | Cyfarwyddwr Gweithredol, FOR Cardiff |
| Alex Clarke | Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth Teithwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Andy Johns | Is-brifathro, Coleg y Cymoedd |
| Christian A Schmidt | Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth, Cyngor Sir Fynwy |
| Clare Cameron | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Clive Campbell | Rheolwr Trafnidiaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru Transport Focus |
| Enfys A Griffiths | Gwasanaethau Trafnidiaeth, Cyngor Bro Morgannwg |
| Gemma Lelliott | Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Geraint Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Gwyn Smith | Cynghorydd Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Sustrans |
| Helen Boyle | First Bus |
| Jason Dixon | Arweinydd Tîm, Polisi Trafnidiaeth, Cyngor Dinas Caerdydd |
| John Gibson | Swyddog Datblygu Prosiectau, Cyngor Dinas Caerdydd |
| Jonathan Parsons | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kevin Sales | Swyddog Trafnidiaeth Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Kwaku Opoku-Addo | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Leanne Waring | Rheolwr Datblygu Busnes, Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Marcus Lloyd | Pennaeth Seilwaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Michelle Roles | Transport Focus |
| Rebecca Smith | Cynllunydd Trafnidiaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Simon Nicholls | Cydgysylltydd Bysiau Cyngor Casnewydd |
| Owen Williams | First Bus |
| Sam Palmer | NAT Travel |
| Simon Livsey | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |

### Siaradwyr

| | | |
|---|---|---|
| Annabell Ody | Rheolwr Cynllunio Gweithrediadau, Trafnidiaeth Cymru | 11:40-12:00 |
| Arron Bevan-John | Rheolwr Rhanddeiliaid, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Emily Coughlin | Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Network Rail | 10:25-10:50 |
| Hinatea Fonteneau | Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Trafnidiaeth Cymru | 10:50-11:05 |
| Josh Hopkins | Rheolwr Gwydnwch Gweithredol, Trafnidiaeth Cymru | 10:25-10:50 |
| Lois Park | Pennaeth Ymgysylltu â Chymunedau a Rhanddeiliaid, Trafnidiaeth Cymru | 11:40-12:00 |
| Matthew Breese | Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru | 11:20-11:40 |
| Arolygydd Richard Powell | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 10:25-10:50 |
| Tony Clayton | Tony Clayton, Rheolwr Prosiectau Datgarboneiddio, Trafnidiaeth | 11:05-11:20 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru | |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Alun Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Adam Keen | NAT Travel |
| Alun Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Alyn Owen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Ceri Stephens | Siambr Fasnach De Cymru |
| Charlie Nelson | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Daniel Bowden | Stagecoach |
| Derek Jones | Prifysgol Caerdydd |
| Gemma Hayne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Heather Anstey-Myers | Siambr Fasnach De Cymru |
| Jane Reakes Davies | First Cymru |
| Julie Twells | Samariaid |
| Kevin Mulcahy | Rheolwr Grŵp, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kyle Phillips | Cyngor Sir Bro Morgannwg |
| Natalie Curtis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Nicola Somerville | Tasglu'r Cymoedd |
| Nigel Winter | Rheolwr Gyfarwyddwr, De Cymru, Stagecoach |
| Paul Carter | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Paul Jones | Cyngor Casnewydd |
| Paul Slevin | Siambr Fasnach De Cymru |
| Richard Cope | Cyngor Casnewydd |
| roberrh@cymoedd.ac.uk | Cymoedd |
| Robert. G. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Roger Waters | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Sam Hadley | Network Rail |
| Sharon Adams | Siambr Fasnach De Cymru |
| Sian Rees | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Helen Dale

*"Roedd yn wych cael croesawu ein holl aelodau, nifer sy'n prysur gynyddu, i bedwaredd fforwm rhanbarthol y De-ddwyrain. Hoffwn ddiolch i'n cyflwynwyr a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch cymunedol ar linellau'r rheilffordd a gerllaw, ein cynllun gwella gorsafoedd, ein prosiect gwefru cerbydau trydan, ymgyrch farchnata ar gyfer adfer o COVID-19 a Metro De Cymru; unrhyw feddiannau neu flocadau sydd ar y gweill. Yn ogystal â chlywed y diweddariadau pwysig hyn, cafodd yr aelodau y cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb gydag Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth ar gyfer Trafnidiaeth Cymru. Hoffwn ddiolch i'r aelodau a gyfrannodd ymhellach at y trafodaethau grŵp ac a gwblhaodd ein holiadur Mentimeter rhyngweithiol. Diolch am roi o'ch amser ac am eich cyfraniadau amhrisiadwy."*

## Agenda

### 1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Helen Dale aelodau'r fforwm i bedwerydd cyfarfod Fforwm Rhanbarthol y De-ddwyrain. Cyflwynodd Helen fformat y cyfarfod, gan gynnwys y defnydd o ystafelloedd trafod ynghyd ag adborth o'r arolygon blaenorol a'r ffordd roeddem wedi addasu ein fforymau yn unol ag adborth gan gyfranogwyr. Hysbysodd Helen yr aelodau o'r negeseuon cyfredol ar gyfer Teithio'n Fwy Diogel ac o reolau Llywodraeth Cymru sydd dal i fod ar waith ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â'r pandemig Covid-19.

### 2. Sesiwn Holi ac Ateb gyda Chyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru

Cynhaliodd Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth yn Trafnidiaeth Cymru, sesiwn holi ac ateb agored gydag aelodau'r fforwm. Cyn cymryd cwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol yn y fforwm, darllenodd Helen Dale gwestiwn a gyflwynwyd drwy e-bost, a oedd yn holi sut roedd timau glanhau rheng-flaen yn paratoi ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn niferoedd teithwyr yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19. Soniodd Alexia Course am y cynnydd yng ngweithgarwch glanhau ar draws gorsafoedd, trenau a depos, ac mae cynnydd wedi bod yn nifer y staff glanhau. Bydd y drefn lanhau yn parhau wrth i wasanaethau gynyddu wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Gofynnodd Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy, a oedd unrhyw dueddiadau'n dod i'r amlwg mewn perthynas â theithwyr ar ôl llacio'r cyfyngiadau, ac a oedd y rhain yn wahanol ar adegau prysur ac adegau tawel. Dywedodd Alexia ei bod hi'n anodd asesu tueddiadau teithwyr ar hyn o bryd, fodd bynnag ymddengys bod cyfnod brig y bore yn cychwyn yn hwyrach ac mae'r galw am wasanaethau'n parhau i fod yn gyson drwy'r dydd. Yn ychwanegol, mae yna gyfnodau brig gydol y dydd, wrth i'r rhai na allant weithio gartref deithio i swyddfeydd, ac oherwydd cynnydd mewn teithio hamdden. Soniwyd hefyd am y pwysigrwydd o allu addasu i ofynion teithwyr, gofynion sy'n newid drwy'r amser.

Cyfeiriodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru Transport Focus, at y ffaith bod y sector trafnidiaeth wedi symud i'r Weinyddiaeth Hinsawdd newydd yn Llywodraeth Cymru a gofynnodd beth oedd blaenoriaethau Alexia ar gyfer trafnidiaeth yn dilyn hyn. Dywedodd Alexia fod Trafnidiaeth Cymru'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a bod cynlluniau i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn gorsafoedd ac addasu'r fflyd er mwyn ei wneud yn fwy niwtral o ran carbon. Soniwyd y dylid blaenoriaethu ymgyrch i gael pobl yn ôl ar y trenau, yn ogystal ag addasu i newidiadau ym mhatrymau teithio cwsmeriaid.

Dywedodd Gwyn Smith, Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Sustrans, fod modd arbed llawer iawn o garbon drwy deithiau aml-ddull a gofynnodd a fydd Trafnidiaeth Cymru'n edrych ar ddatgarboneiddio teithiau aml-ddull cyfan yn hytrach na theithiau trên yn unig. Cadarnhaodd Alexia fod Trafnidiaeth Cymru'n edrych ar ddatgarboneiddio'r daith gyfan, gan ganolbwyntio ar deithiau aml-ddull.

Gofynnodd Gwyn Smith hefyd a oedd Trafnidiaeth Cymru'n mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol er mwyn datblygu eu mapiau rhwydwaith teithio llesol. Soniodd Alexia fod tîm teithio llesol Trafnidiaeth Cymru yn gwneud llawer iawn o waith mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol i hyrwyddo teithio llesol.

Holodd Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy, ynghylch cyflwyno tocynnau integredig ac a oes gan Trafnidiaeth Cymru

reolaeth uniongyrchol dros bris tocynnau trên. Atebodd Alexia drwy gadarnhau bod gan Trafnidiaeth Cymru reolaeth uniongyrchol dros brisiau eu tocynnau sydd heb eu rheoleiddio ac sy'n rhan o'u rhwydwaith nhw o deithiau. Trafododd Alexia hefyd y gwaith sylweddol y mae Trafnidiaeth Cymru'n ei wneud mewn perthynas â chreu system docynnau integredig ac awgrymodd cael eitem ar docynnau integredig yn un o fforymau'r dyfodol pan fydd y system ar waith.

Gofynnodd Alex Clarke, Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth Teithwyr yng Nghyngor Caerffili, a fydd amserlenni'n cael eu cyhoeddi cyn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd. Nododd Alex ei bod yn anodd cydlynu cysylltiadau bws a rheilffordd os nad yw manylion amserlenni'n cael eu rhyddhau gyda rhybudd digonol. Dywedodd Alexia ei bod wedi bod yn anodd cadarnhau amserlenni a'u cyhoeddi ymlaen llaw yn anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd newidiadau mewn cyfnodau clo a chyfyngiadau. Fodd bynnag, soniodd am y nod o ddychwelyd i gynllun strwythuredig, mewn cydweithrediad â gweithredwyr bysiau, er mwyn darparu dull mwy integredig.

Gofynnodd Jason Dixon, Arweinydd Tîm Polisïau Trafnidiaeth Cyngor Dinas Caerdydd, a oes unrhyw gynlluniau i adolygu prisiau tocynnau trên ar gyfer Casnewydd, Caerdydd a'r Cymoedd er mwyn eu gwneud yn gynhwysol yn gymdeithasol. Eglurodd Alexia fod Trafnidiaeth Cymru'n ystyried yr ardaloedd hyn yn y strategaeth docynnau, a bydd y strategaeth hon yn cael ei phrofi ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn addas. Mynegodd Alexia hefyd yr angen i brisiau tocynnau trên adlewyrchu demograffeg Cymru i raddau mwy. Awgrymwyd y dylid cael diweddariad ar hyn yn un o fforymau'r dyfodol.

Holodd Clive Campbell, Rheolwr Trafnidiaeth Cyngor Caerffili, ynghylch cynnydd strategaeth Parcio a Theithio Llywodraeth Cymru. Nododd Alexia fod Trafnidiaeth Cymru'n gweithio ar y strategaeth sy'n cynnwys Cymru gyfan ac awgrymodd y dylai fod yn eitem ar gyfer y fforwm nesaf.

## 3. Cadw'n Cymunedau'n Ddiogel

Arweiniodd Josh Hopkins, Trafnidiaeth Cymru, Arolygydd Richard Powell, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, ac Emily Coughlin, Network Rail, drafodaeth ar y gwaith sydd gan TrC ar y gweill i gadw'r rheilffordd a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn ddiogel i staff, cwsmeriaid a chymunedau. Fe wnaeth yr holl siaradwyr rannu gwybodaeth am eu gwaith partneriaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau.

Cymerodd cyfranogwyr y fforwm ran mewn sesiynau gweithdy er mwyn trafod themâu penodol:

***Trosedd - Gweithgarwch troseddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Pa droseddau sy'n bodoli ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Beth fyddech chi'n ei wneud os byddech chi'n gweld trosedd ar y rhwydwaith trafnidiaeth?
- Ydych chi'n gwybod rhif ffôn testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig?
- Beth ellid ei wneud (ar wahân i gysylltu â'r heddlu) i leihau troseddu ar y rhwydwaith trafnidiaeth?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:

Siaradodd y grŵp am y ffaith nad oedd digon o gasglwyr tocynnau i'w gweld ar drenau a gallai hyn wneud teithwyr yn fwy tebygol o adrodd digwyddiadau drwy rif testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn hytrach na dweud wrth y casglwr tocynnau ar y trên. Fodd bynnag, mynegwyd bod hyn yn bryder gan nad yw pawb yn gwybod beth yw rhif testun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Trafodwyd y broblem o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar drafnidiaeth cyhoeddus hefyd, gan gynnwys bysiau, yn ogystal â'r cynnydd mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar nosweithiau digwyddiadau.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** ***Ymddygiad sy'n achosi braw neu ofid ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Pwy sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- Beth yw'r problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich ardal chi?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw grwpiau allweddol y dylem fod yn ymgysylltu â nhw?

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

Mae yna ganfyddiad mai pobl iau sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, a soniwyd am y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol, yn enwedig nawr bod y tafarnau ar agor.

**Digwyddiadau ar y rheilffordd** ***Yn cynnwys tresmasu, camddefnyddio croesfannau a gweithgarwch sy'n anniogel ar y rhwydwaith trafnidiaeth.***

- Beth ellir ei wneud er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?
- Beth ddylem fod yn ei wneud yn TrC er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau ar y rheilffordd?

Roedd trafodaethau'n cynnwys:

Trafododd y grŵp ddibenion dosbarthu deunyddiau i ysgolion cynradd a myfyrwyr coleg a phwysleisiodd bwysigrwydd hybu ymddygiad diogel o oedran cynnar. Soniwyd hefyd am greu pecynnau addysgol ar gyfer athrawon. Nodwyd effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd blaenorol hefyd, fel yr ymgyrch 'Dumb ways to die' gan Metro Trains Melbourne. Cyfeiriodd Emily Coughlin at ymgyrch ddiogelwch newydd Network Rail a lansiwyd ar 24 Mai.

Gofynnodd Christian Schmidt a fyddai modd symleiddio rhif Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, fel rhif yr heddlu ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys (101). Soniodd David Beer hefyd y dylid hyrwyddo'r rhif i raddau mwy wrth i deithwyr ddychwelyd i deithio. Atebodd yr Arolygydd Richard Powell drwy ddweud y byddai'n annhebygol i'r rhif testun gael ei newid gan ei fod yn cael ei ddefnyddio ledled y DU, fodd bynnag mae gwaith ar y gweill i wella arwyddion ar drenau ac i ddarparu cardiau testun i hyrwyddo'r rhif ymysg teithwyr.

## 4. Cynllun Gwella Gorsafoedd

Cyflwynodd Hinatea Fonteneau, Pennaeth Prosiectau Gorsafoedd, Raglen Gwella Gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru i wneud gwelliannau ac addasiadau i'r rhwydwaith o orsafoedd a reolir gan TrC ledled y De.

Gofynnodd Alex Clarke, Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth Teithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, am yr wybodaeth ddiweddaraf am waith glanhau dwys mewn gorsafoedd. Cadarnhaodd Hinatea Fonteneau fod gwaith glanhau dwys mewn gorsafoedd wedi'i gwblhau yn 2020 a chadarnhaodd y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y rhaglen.

Gofynnodd Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth yng Nghyngor Sir Fynwy, a fyddai modd trafod unrhyw gynlluniau ymlaen llaw â'r cynghorau lleol perthnasol, yn hytrach na bod cynghorau lleol yn cael eu hysbysu yr un pryd â'r cyhoedd. Gofynnodd Christian hefyd a allai'r tîm gwella gorsafoedd helpu gyda rhannau o orsafoedd nad ydynt yn rhan o fasnachfraint Trafnidiaeth Cymru. Cadarnhaodd Hinatea Fonteneau y bydd y tîm yn sicrhau y bydd cynlluniau'n cael eu trafod â chynghorau lleol yn y dyfodol. Mewn perthynas â

rhannau o orsafoedd nad ydynt dan fasnachfraint, atebodd Hinatea drwy ddweud bod yna heriau pan nad yw gofodau o fewn prydles yr orsaf, fodd bynnag mae dull cydgysylltiedig gyda chymorth gan awdurdodau lleol yn allweddol ac yn cael ei groesawu.

## 5. Gorsafoedd Gwefru Cerbydau Trydan

Cyflwynodd Tony Clayton, Rheolwr Prosiect Datgarboneiddio, Trafnidiaeth Cymru, y prosiectau gwefru cerbydau trydan Cymru a'r Gororau sydd wedi'u cynllunio ar draws y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru a'r gorsafoedd ar hyd a lled y de-ddwyrain.

Yn dilyn cyflwyniad Tony Clayton, gofynnodd Kwaku Opoku-Aaddo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, beth oedd y rhesymau dros y nifer isel o bobl sy'n defnyddio cerbydau trydan yng Nghymru. Awgrymodd Tony Clayton fod yna sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys y ffaith bod gweithredwyr pwyntiau gwefru'n canolbwyntio ar leoliadau sy'n fwy deniadol yn fasnachol fel Llundain yn hytrach na Chymru, a'r ffaith bod cerbydau trydan yn ddrytach na cherbydau injan hylosgi.

Mynegodd Alex Clarke, Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth Teithwyr Cyngor Caerffili, bryder ynghylch gofyn i gwsmeriaid barcio eu cerbydau trydan er mwyn mynd ar drên diesel. Nododd Tony Clayton fod Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar ddatgarboneiddio ar draws yr holl ddulliau teithio, a'u bod yn ymchwilio i ddatgarboneiddio fflyd y rheilffordd a chyflwyno mwy o unedau i'r rhwydwaith nad ydynt yn rhai diesel.

Gofynnodd Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy, gwestiwn ynghylch gwefrwyr cyflym ac araf i gerbydau trydan, ac a ellir cyfiawnhau cost gwefrwyr cyflym mewn gorsafoedd. Atebodd Tony Clayton drwy egluro bod gwefrwyr araf i'w defnyddio yn y cartref gan fwyaf. Fodd bynnag, bydd gwefrwyr cyflym, sy'n gallu gwefru cerbydau trydan mewn 2-5 awr, yn fuddiol i'r rhai sy'n parcio mewn gorsafoedd, sy'n cymudo i'r gwaith ar y trên, ac sydd yna'n dychwelyd sawl awr yn ddiweddarach. Maen nhw'n cydweithio'n agos â gweithredwyr pwyntiau gwefru er mwyn diweddaru gwefrwyr a newid y cit os oes angen.

Yn dilyn hyn, gofynnodd Gwyn Smith, Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Sustrans, a oedd tystiolaeth fod pobl am wefru eu cerbydau mewn gorsafoedd, yn hytrach na gwneud hyn gartref. Atebodd Tony Clayton nad yw pawb yn gallu parcio eu car oddi ar y stryd lle gellir gwefru'n hawdd. Ychwanegodd fod strategaeth gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r angen am amrywiaeth o ddewisiadau gwefru, gan gynnwys gwefru gartref a gwefru mewn cyrchfannau/gweithleoedd.

O ran gweithredwyr pwyntiau gwefru, gofynnodd Clive Campbell, Rheolwr Trafnidiaeth Cyngor Caerffili, a fydd nifer o weithredwyr gwahanol yn cydweithio â Trafnidiaeth Cymru. Dywedodd Tony Clayton fod Trafnidiaeth Cymru wedi dyfarnu contract i un gweithredwr pwyntiau gwefru, er mwyn sicrhau seilwaith gwefru cerbydau trydan cyson a safonol. Golyga hyn hefyd nad oes angen i gwsmeriaid gofrestru â gwasanaeth tanysgrifio i dalu i ddefnyddio'r seilwaith.

Gofynnodd Clive Campbell gwestiwn hefyd am y cytundeb 15 mlynedd â'r gweithredwr pwynt gwefru. Roedd hyn yn cynnwys y ffordd y bydd Trafnidiaeth Cymru'n sicrhau y gellir newid dros amser o gofio bod technoleg cerbydau trydan yn esblygu'n gyflym. Ymatebodd Tony Clayton drwy nodi y bydd y gweithredwyr yn berchen ar y rhwydwaith gwefru ac yn ei reoli, felly wrth i dechnoleg esblygu, gellir newid y cit. Mae hyn yn golygu y gellir cael hyblygrwydd mewn marchnad sy'n esblygu'n gyflym.

Ochr yn ochr â hyn, gofynnodd, Clive Campbell a fydd y contract a seilwaith cerbydau trydan yn cynnig darpariaeth ar gyfer beiciau trydan. Atebodd Tony Clayton drwy ddweud er nad yw'r contract yn cynnwys seilwaith gwefru ar gyfer beiciau, bydd y tîm yn ystyried sicrhau y gall cyfleusterau gorsafoedd ar draws y rhwydwaith gefnogi'r rhai sy'n teithio gyda beiciau trydan.

## 6. Ymgyrch farchnata ar gyfer adfer wedi Covid -19

Cyflwynodd Matt Breese, Rheolwr Brand, Trafnidiaeth Cymru, fanylion yr ymgyrch farchnata ddiweddaraf i annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mae'r ymgyrch hon wedi'i llywio gan drafodaethau a gynhaliwyd mewn fforymau rhanddeiliaid blaenorol, a byddai safbwyntiau pellach gan fynychwyr am y cysyniad cyffredinol yn dderbyniol iawn.

Yn ôl Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy, mae canolbwyntio ar 'gysylltiadau go iawn' yn apelgar, ond mynegodd bryder ynghylch y defnydd o iaith negyddol a dywedodd y dylid cael mwy o bwyslais ar agweddau cadarnhaol ar deithio.

Dywedodd Christian Schmidt hefyd y dylid defnyddio mwy o ddelweddau o ddulliau teithio eraill yn yr ymgyrch drwyddi draw, er enghraifft delweddau o safleoedd bws, trenau a theithio llesol. At hynny, awgrymodd Christian Schmidt fod angen i'r ymgyrch wthio'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus i gyfarfod ffrindiau a theulu, ac i ddangos sut mae trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan o amseroedd da bob dydd.

Dywedodd Alex Clarke y gall defnyddio brandio Trafnidiaeth Cymru olygu bod yr ymgyrch yn rhoi gormod o ffocws ar drenau. Gofynnodd Alex Clarke hefyd a oedd ffordd o gael teithwyr i gymryd hun-lun wrth deithio. Atebodd Matt Breese drwy ddweud bod hynny'n rhywbeth y byddant yn ei ystyried, gan y bydd yr agwedd gymdeithasol yn bwysig yn ymgyrch y wasg.

## 7. Eitem ranbarthol – Metro De Cymru: Cynllunio gwaith peirianneg y dyfodol a'i effaith ar wasanaethau

Bu Lois Park, Pennaeth Ymgysylltu â Chymunedau a Rhanddeiliaid, ac Annabell Ody, Rheolwr Cynllunio Gweithredol, yn cyflwyno manylion ar feddiannau a blocadau rheilffordd yn y De, a thrafod sut y bydd Trafnidiaeth Cymru am gynllunio'r rhain o bosib yn y dyfodol. Cyflwynodd Lois Park wybodaeth am Fetro De Cymru, ac yna soniodd Annabell Ody am feddiannau a blocadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys sesiwn Mentimeter ryngweithiol a oedd â'r nod o gasglu adborth ar y ffordd y dylid cynllunio cau gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r ddwy yn awyddus i gynnwys cynulleidfa amrywiol o randdeiliaid a theithwyr yn y sgyrsiau hyn yn y dyfodol.

Dywedodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru Transport Focus, fod gwybodaeth mewn gorsafoedd yn bwysig, fel posteri. Yn ogystal, roedd, Christian Schmidt, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy, yn cefnogi sylw David ynghylch gwybodaeth mewn gorsafoedd ac ychwanegodd bod rhoi sicrwydd i bobl yn bwysig. Gall teithwyr wirio gartref, fodd bynnag mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael yn yr orsaf leol hefyd.

Yn ôl Alex Clarke, Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth Teithwyr Cyngor Caerffili, byddai'n ddefnyddiol cydweithio ag Awdurdodau Lleol ochr yn ochr â darparwyr sy'n cludo teithwyr pan nad yw rheilffordd ar agor a staff Trafnidiaeth Cymru wrth gadarnhau arosfannau gwasanaethau amgen er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i deithwyr. Tynnodd Alex Clarke sylw at y ffaith y gall fod angen newid un cwestiwn yn yr arolwg Mentimeter er mwyn sicrhau y gellir cael mwy nag un ateb, yn benodol y cwestiwn ynghylch pa adnoddau fyddent yn eu defnyddio pe baent yn cynllunio ymlaen llaw.

## 8. Unrhyw Fater Arall

Dim

## 9. Camau Gweithredu

Cofnodwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a byddwn yn mynd i'r afael â nhw cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bynnag y bo'n bosibl.

| Camau Gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Rhannu siartiau sefydliadol ag aelodau'r fforwm gan amlinellu pwy sydd â chyfrifoldeb ym mhob ardal | Gwybodaeth i gael ei hanfon pan fydd ar gael |
| Cyflwyniadau i'w rhannu ag aelodau'r fforwm | Bydd cyflwyniadau wedi'u hatodi i'r marciwr dyddiadur |

# Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y Fforwm

**Dyma uchafbwyntiau'r sgwrs yn adnodd sgwrsio'r Fforwm:**

**Cynllun Gwella Gorsafoedd:**

*Mae ymgynghori â rhanddeiliaid ar gyfer parcio beiciau yn bwysig iawn. Mae angen ystyried manylebau parcio beiciau yn ofalus iawn hefyd. Mae gosodiadau diweddar yn wael mewn rhai llefydd (standiau'n rhy agos at ei gilydd). Mae'r grŵp Cycle Rail yn adrodd ar y mater hwn ar hyn o bryd a dylid ystyried ei argymhellion.*

**Gwefru Cerbydau Trydan:**

*Ymddengys y bydd gorsafoedd yn troi'n hybiau gwefru Cerbydau Trydan.*

*(Clare Cameron) – Ar hyn o bryd mae CCR yn cydweithio ag ega er mwyn rhoi fframwaith ynghyd ar gyfer Cymru gyfan gyda'r bwriad o gael 3 darparwr yn y fframwaith. Ydy hwn yn rhywbeth y byddai gan TrC ddiddordeb yn ei ddefnyddio? Rydyn ni'n debygol o fynd i dendr erbyn diwedd y mis. Fyddwch chi'n tendro dan gytundeb consesiwn ac a ydych chi'n gobeithio cael elw o'r buddsoddiad (cyfran o'r elw)?*

*(Tony Clayton) - Cwestiwn da iawn Clare - rydyn ni'n ystyried model cytundeb consesiwn gan rannu'r refeniw rhwng y tirfeddiannwr a gweithredwr y pwynt gwefru a fydd yn ariannu'r gwasanaeth. Rydyn ni'n cydnabod na fydd rhai gorsafoedd yn ddeniadol yn fasnachol ar eu pen eu hunain, ac na fyddan nhw'n debygol o greu llawer o refeniw yn y blynyddoedd cynnar, felly rydyn ni'n ystyried consesiwn hirach er mwyn gwneud y contract yn hyfyw i weithredwr. Bydd unrhyw refeniw lle mai TrC yw'r tirfeddiannwr yn cael ei ail-fuddsoddi, rydw i'n sicr, i gefnogi ymddygiad a gwelliannau pellach sy'n dilyn egwyddorion teithio cynaliadwy.*

*(Clare Cameron) – Mae WPD wedi mynnu ein bod yn cynyddu maint y ceblau ar gyfer y gwefrwyr cyflym, felly efallai y byddwch chi am wirio â nhw, gan na fydd o bosib yn hawdd newid 7kw i 22kw heb uwchraddio'r ceblau – mae hyn yn wahanol i'r hyn roeddent yn gofyn amdano'n wreiddiol*

**Ymgyrch farchnata ar gyfer adfer wedi Covid -19:**

*Calonnau a Meddyliau: ie ond mae'n bwysig iawn ei fod yn gwella delwedd trafnidiaeth gyhoeddus. Dyna pam y dylai unrhyw beth sy'n ymwneud â chalonnau a meddyliau gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus!!*

**Unrhyw Fater Arall:**

*Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am Barcio a Theithio yn y fforwm nesaf yn ddefnyddiol iawn.*

*Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth bysiau, hygyrch o ansawdd uchel yn lle trenau pan fydd angen cau llinellau (5 delwedd o'r bysiau fydd ar gael yn lle trenau)*

*Diolch bawb – roedd y sesiwn yn llawn gwybodaeth!*

## Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Cynhelir Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf y Gogledd a'r Canolbarth (12-18 Medi 2021)